# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dydd Mercher, 20 Gorffennaf 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.M. Cundy (Chair)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, J.K. Howell, J. Owen, S.L. Davies, T. Devichand, S. Matthews, H.I. Jones, H.B. Shepardson, E.G. Thomas a/ac S.M. Allen (yn lle W.R.A. Davies)

**Hefyd yn Bresennol:**
**Y Cynghorydd L.D. Evans – yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai**
**Cynghorydd P.A. Palmer – yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau**

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
I. Jones, Pennaeth Hamdden
R. Staines, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
D. Eldred, Group Accountant
H. Morgan, Interim Economic Development Manager
S. Walters, Interim Economic Development Manager
J. Willis, Housing Services Manager (Advice & Options)
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Maynard, Rheolwr Cymunedol a Diogelu
L. Quelch, Y Pennaeth Cynllunio
C. Daniels, Senior Sports and Leisure Manager

**Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin - 10.00 am - 1.15 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd W.R.A. Davies.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol.

## 3. DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd dim wedi dod i law.

## 5. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Rhoddwyd rhestr i'r Pwyllgor o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn y cyfarfod oedd i'w gynnal ar y 29ain Medi, 2016.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol.**

## 6. ADOLYGIAD GORCHWYL A GORFFEN O EIDDO GWAG YN SIR GAERFYRDDIN GAN Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU - MONITRO'R CYNLLUN GWEITHREDU

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad cynnydd a chynllun gweithredu cysylltiol i'w hystyried ynghylch argymhellion ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr adolygiad o eiddo gwag yn Sir Gaerfyrddin a gynhaliwyd yn ystod 2014/15.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:-

Cyfeiriwyd at nifer y cartrefi gwag yn y sir y telid morgais ar eu cyfer ac at a oedd unrhyw gamau allai'r Awdurdod eu cymryd i hwyluso'r broses o'u gwneud yn addas i fyw ynddynt unwaith yn rhagor. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Tai, er ei bod yn anarferol i gartrefi o'r fath gael eu morgeisio, neu i fod heb unrhyw ecwiti, gan fod y mwyafrif llethol mewn meddiant llwyr, fod nifer o ddewisiadau ar gael i'w gwneud yn addas i fyw ynddynt unwaith eto. Roedd hynny'n cynnwys darparu benthyciadau i berchnogion, cymryd camau gorfodaeth o dan ddeddfwriaeth Iechyd yr Amgylchedd a phrynu'r eiddo trwy bryniant gorfodol.

Cyfeiriwyd at fater tai ym meddiant y Cyngor sy'n wag am gyfnodau maith ac y mae'n rhaid gwneud gwaith costus arnynt i'w gwneud yn addas i fyw ynddynt unwaith yn rhagor. Holwyd a fyddai'n fwy cost effeithiol a buddiol gwneud y gwaith hwnnw yn hytrach na gadael yr eiddo'n wag. Atgoffwyd y Pwyllgor fod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi rhoi sylw i'r agwedd honno fel rhan o'i ymchwiliadau, ac y cafodd wybod bod unrhyw waith adnewyddu sydd ei angen ar eiddo ym meddiant y Cyngor yn cael ei werthuso yn ôl eu haeddiant ac yn ôl yr angen am dai yn yr ardal dan sylw. Os oedd eiddo y mae angen gwaith arno mewn ardal o angen isel, efallai nad gwneud gwaith adnewyddu helaeth iddo yw'r cam mwyaf priodol, o gofio fod adnoddau ariannol yn gyfyngedig, ond rhoddir mwy o bwys ar wneud eiddo yn addas i fyw ynddynt unwaith yn rhagor mewn ardaloedd lle mae'r galw yn drwm.

Atgoffodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd y Pwyllgor fod yr Adran, wrth osod a gwneud tai ym meddiant y Cyngor yn addas i fyw ynddynt unwaith yn rhagor, yn defnyddio system weithredu Vangaurd i werthuso ei pherfformiad. Mae'r system honno'n sicrhau cryn arbedion i'r Awdurdod, a chafodd y cyfnod gwag cyfartalog presennol ei leihau o 80 i 20 diwrnod. Nifer yr eiddo fu'n wag am gyfnod maith ym mis Mehefin 2016 oedd 56, o'i gymharu â stoc tai o fwy na 9,000, rhai ohonynt yn anodd eu gosod neu mewn ardaloedd lle'r oedd y galw am dai yn isel, tra bod angen cryn fuddsoddiad ar eraill. Wrth werthuso eiddo fu'n wag am gyfnod maith, roedd yr Adran yn edrych ar y cam mwyaf priodol i'r dyfodol, gan gynnwys a oedd angen cadw'r eiddo o fewn y portffolio tai. Os mai canlyniad y gwerthusiad oedd y dylid cadw'r eiddo, byddai'r eiddo'n cael ei roi ar restr aros i gystadlu am adnoddau cyfyngedig yn ôl targed y Cyngor i greu hyd at 1,000 o gartrefi fforddiadwy newydd ac ar gyfer gwneud atgyweiriadau i'r stoc tai.

Cyfeiriodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd at ddefnyddio system Vangaurd ac awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor gael cyflwyniad arni mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cyfeiriwyd at sefyllfa eiddo gwag a gafodd eu hesgeuluso am gyfnod maith lle'r oedd ymdrechion i ddod o hyd i'r perchennog/perchnogion wedi methu ac at y camau oedd ar gael i'r Cyngor i gymryd meddiant o'r eiddo hynny. Dywedodd

Rheolwr y Gwasanaethau Tai fod yr Adran wedi penodi swyddog cartrefi gwag pwrpasol i asesu eiddo o'r fath ac i lunio cynllun gweithredu i'w gwneud yn addas i fyw ynddynt unwaith yn rhagor. Roedd yr Adran hefyd wedi cydnabod fod llawer o waith yn cael ei gynhyrchu yn hyn o beth a bydd yn penodi swyddog ychwanegol i gynorthwyo gyda'r gwaith.

Wrth gyfeirio at yr uchod, dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd y byddai'n trefnu i bob aelod dderbyn nodyn esboniadol byr yn darparu pwyntiau cyswllt allweddol a gwybodaeth ar sut allent ddefnyddio'r gwasanaeth i hwyluso gwneud eiddo yn addas i fyw ynddynt unwaith yn rhagor. Atgoffwyd y Pwyllgor hefyd fod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi argymell y dylid cynnal seminar i roi gwybod i bob aelod am ddulliau, heriau a chyflawniadau'r Cyngor yn gwneud eiddo yn addas i fyw ynddynt unwaith yn rhagor ac i godi ymwybyddiaeth o'r gwaith hwnnw ymhlith aelodau. Trefnwyd y seminar honno ar gyfer yr 22ain Medi 2016.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**6.1 Y dylid derbyn yr adroddiad cynnydd a'r cynllun gweithredu ar yr adolygiad Gorchwyl a Gorffen o eiddo gwag yn Sir Gaerfyrddin.**

**6.2 Y dylai'r Pwyllgor gael cyflwyniad mewn cyfarfod i'r dyfodol ar weithrediad system Vangaurd.**

## 7. DARPARIAETH FFITRWYDD ACTIF

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad Power Point yn rhoi diweddariad ar y ddarpariaeth ffitrwydd uwchraddedig a gynigir yng nghanolfannau hamdden yr Awdurdod yn Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman ac yn cynnwys manylion am y meysydd perfformiad thematig canlynol:-

- Lle Ffitrwydd Actif o fewn y Portffolio Chwaraeon a Hamdden
- Perfformiad Hanesyddol – Yr angen am newid
- Effaith yr uwchraddio hyd yn hyn
- Strategaethau amgylchynol er mwyn llwyddo: hyrwyddo a gwella'r gwasanaeth
- Rheoli Perfformiad
- Camau i'r Dyfodol

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:-

Wrth ymateb i gwestiwn ynghylch gosod offer ffitrwydd newydd a materion capasiti yn y tair canolfan hamdden y cyfeiriwyd atynt, dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd yr offer a osodwyd yn ddiweddar yng Nghanolfan Hamdden Llanelli yn lle'r hen offer wedi golygu unrhyw waith ychwanegol. Ar gyfer Caerfyrddin, roedd y capasiti'n cael ei gynyddu 20%. O ran Rhydaman, bydd gwaith adlunio'n cael ei wneud mewn dau gam, trwy gael gwared â'r ystafelloedd newid ac ymestyn y gampfa a thrwy adleoli'r stiwdio ddawns ar y llawr cyntaf i'r llawr gwaelod.

Cyfeiriwyd at y buddsoddiad sy'n cael ei wneud yn y canolfannau hamdden uchod a holwyd a allai cost y gwaith hwnnw fod ar draul cyfleusterau hamdden eraill sy'n eiddo i'r Cyngor ac y gallai'r rheiny wynebu'r perygl o gau dros yr hirdymor er mwyn canoli'r ddarpariaeth yn y tair prif ganolfan boblog. Cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden nad oedd gan y Cyngor unrhyw bolisi o'r fath ar hyn o bryd a bod cyfleusterau o'r fath y tu hwnt i'r prif ganolfannau poblog yn cyflawni rôl

bwysig yn y gymuned. Yn hynny o beth, dywedodd fod yr Awdurdod yn darparu rhagor o gyfleusterau yn y canolfannau hynny, gan gynnwys adleoli rhai cyfleusterau o Ganolfan Hamdden Caerfyrddin i Gastellnewydd Emlyn, a gosod offer ffitrwydd newydd yng Nghanolfan Hamdden Sanclêr gan ddefnyddio arian o incwm cynllunio A106. Roedd y Cyngor hefyd yn chwilio'n gyson am bob cyfle i wella cyfleusterau yn ei holl ganolfannau hamdden.

Cyfeiriwyd at bolisi codi tâl y Cyngor yn ei ganolfannau hamdden ac yn benodol felly at ei effaith ar ddau glwb yn ardal Castellnewydd Emlyn oedd wedi'u gorfodi i chwilio am leoliadau hyfforddi eraill. Atgoffodd y Pennaeth Hamdden y Pwyllgor fod y Cyngor, wrth bennu prisiau, yn gorfod sicrhau cysondeb ar draws ei bortffolio hamdden, a chydnabod effaith cystadleuaeth o'r sector preifat ac awdurdodau lleol cyfagos.

Wrth ymateb i gwestiwn ar gydweithio, cadarnhawyd fod yr Awdurdod yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd yn y maes hwn a'i fod yn cymryd rhan yn y cynllun atgyfeirio cleifion. Hyd yn hyn, roedd yr Awdurdod wedi darparu ar gyfer 1200 atgyfeiriad, gan feddygon teulu yn bennaf, ac roedd wrthi'n chwilio am ffyrdd eraill o gael mwy o bobl i ddefnyddio ei ganolfannau hamdden er mwyn hyrwyddo ffitrwydd a llesiant, gan gynnwys dosbarthiadau ymarfer i famau cyn ac wedi geni babanod. O ran nifer yr atgyfeiriadau, nodwyd fod ymarferiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i ganfod pa ganran oedd yn parhau i ddefnyddio cyfleusterau'r Cyngor ar ôl cwblhau eu rhaglen 16 wythnos.

Cyfeiriodd y Pennaeth Hamdden at y cynllun Atgyfeiriadau Hamdden Cenedlaethol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, ac atgoffodd y Pwyllgor ei fod yn ogystal â chreu incwm hamdden ychwanegol i'r Awdurdod hefyd yn cael effaith ar atal troseddu a lefelau afiechyd a thrwy hynny'n lleihau costau hirdymor i gymdeithas.

Cyfeiriwyd at y mynegai Sgôr Hyrwyddwr Net ac at y ffaith fod cyfleusterau hamdden Caerfyrddin yn darparu gwasanaeth safon byd. Dywedwyd y byddai'n ddiddorol gwybod pa sgôr fyddai gwasanaethau eraill y Cyngor yn ei gael drwy'r mynegai. Wrth ymateb, dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd y cafodd y mynegai ei ddatblygu gan y farchnad breifat gystadleuol yn arf pwysig i bennu lefelau bodlonrwydd ymhlith cwsmeriaid ac i ganfod a fyddai'r cwsmeriaid hynny'n fodlon cymeradwyo eu gwasanaethau i eraill. O ran gwasanaethau eraill y Cyngor, ni fyddai defnyddio'r mynegai yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol bob tro; er enghraifft, ni fyddai person yn wynebu camau gorfodaeth / troi allan yn rhoi sgôr gadarnhaol o reidrwydd. Fodd bynnag, roedd yr Is-adran Dai yn defnyddio dulliau mesur perfformiad, ond mewn ffordd wahanol, er enghraifft trwy ofyn i denantiaid beth allai'r Awdurdod ei wneud iddynt i wneud eu cartrefi/bywydau yn well. Dywedodd fod y dull hwnnw'n sicrhau gwell sgoriau bodlonrwydd ac awgrymodd y gellid cyflwyno adroddiad ar y mesuriadau hynny i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Cyfeiriwyd at gost gwresogi pyllau nofio ac a ellid adennill peth o'r gost honno trwy ymestyn oriau agor y pyllau. Cadarnhaodd yr Uwch-reolwr Chwaraeon a Hamdden fod defnydd helaeth yn cael ei wneud o'r pyllau ar hyn o bryd, sef gan ysgolion yn ystod y dydd a'r cyhoedd y tu allan i oriau ysgol, a bod rhai pyllau mwy yn gallu cynnig cymysgedd o ddosbarthiadau. Byddai angen gwerthuso unrhyw fwriad i ymestyn oriau agor trwy edrych ar gostau a lefelau defnydd uwch posib. O ran cost, dywedodd fod yr Awdurdod yn ymwybodol o'r lefelau ynni uchel sydd eu

hangen i wresogi pwll nofio a'i fod wedi buddsoddi £100k i osod gorchuddion pyllau, a'r disgwyl oedd y dylid adennill y gost honno dros gyfnod o dair blynedd.

Cyfeiriwyd at nifer y cwmnïau preifat sy'n gweithredu yn y Sir sy'n cyflogi nifer fawr o bobl, gan gynnwys cwmnïau amlwladol, a holwyd a oedd y Cyngor yn cynnig tâl aelodaeth gostyngol i'r gweithwyr hynny. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Cyngor yn cynnig nifer o gynlluniau i annog pobl i ddefnyddio ei holl gyfleusterau hamdden oedd ar gael i gwmnïau mawr a grwpiau oed gwahanol ac ati. Cytunwyd y dylid danfon copi o'r cynlluniau hynny at holl aelodau'r Cyngor. Dywedwyd hefyd y bydd y Cyngor cyn bo hir yn penodi Cydlynydd Iechyd a Llesiant gyda'r bwriad o annog ei staff i wella eu hiechyd a'u ffitrwydd. Roedd potensial hefyd i ymestyn yr arfer hwnnw i gwmnïau preifat mawr.

Wrth ymateb i gwestiwn ar y ffaith fod llai o ysgolion yn cymryd rhan mewn rhaglenni nofio, cadarnhawyd fod cyflwyno tâl o £2.07 y disgybl wedi arwain at ostyngiad o 25% yn y nifer oedd yn cymryd rhan. Dywedodd y Pennaeth Hamdden mai'r drefn yn y gorffennol oedd bod ysgolion yn cael defnyddio'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim a bod yr Awdurdod wedi gorfod codi tâl i adennill y gost o ddarparu'r gwasanaeth.

Wrth ymateb i gwestiwn ar lefelau gordewdra ymhlith plant yng Nghaerfyrddin, dywedodd y Pennaeth Hamdden fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl i edrych ar y lefelau hynny ac i gytuno camau i leihau'r lefel bresennol o 30% sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 26%. Dywedwyd hefyd fod y Cyngor yn edrych ar ba gamau y gallai eu cymryd i gynorthwyo i leihau'r canran hwnnw, er enghraifft trwy sicrhau bod pob peiriant bwyd a diod yn ei adeiladau yn cynnwys bwydydd iach.

Wrth ymateb i gwestiwn ar fenter nofio rhad ac am ddim Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc dan 16 a phobl dros drigain oed, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr amserau gweithredu yn cael eu pennu gan y Llywodraeth, a bod y Cyngor yn derbyn £157k y flwyddyn i dalu am redeg y cynllun. Er y gallai'r Cyngor ymestyn y cyfnod gweithredu trwy gynnig nofio am ddim trwy gydol y flwyddyn, ni fyddai'r Llywodraeth yn talu'r costau ychwanegol fyddai'n deillio o'r penderfyniad hwnnw a byddai'n rhaid i'r Cyngor ysgwyddo'r gost lawn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 8. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2015/16

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiadau Monitro ynghylch Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf Gwasanaethau Tai, Cynllunio a Hamdden am y cyfnod diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:-

Wrth ymateb i gwestiwn ar y gorwariant cyfunol o £70k ar Harbwr Porth Tywyn a Llethr Sgïo Pen-bre dywedodd y Pennaeth Hamdden eu bod yn gysylltiedig â chostau treillio ychwanegol yn yr harbwr ynghyd â gostyngiad yng ngwerth y stoc yn siop y llethr sgïo. O ran yr harbwr, atgoffodd y Pwyllgor mai polisi'r Cyngor oedd cadw a rheoli'r cyfleuster, a bod gwaith treillio yn rhan annatod o'i reoli. O ran y llethr sgïo, dywedodd fod hynny'n golygu lleihau gwerth a lefel y stoc a gedwir yn y siop gan mai pwyslais y Cyngor oedd darparu cyfleusterau sgïo nid

gwerthu dillad.

Wrth ymateb i gwestiwn ar y ffaith y cafodd gorwariannau yn y gyllideb Hamdden eu gosod yn erbyn swyddi gweigion, cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden nad oedd gan yr Is-adran unrhyw staff ar gontractau dim oriau. Fodd bynnag, dywedodd fod gan y gwasanaeth nifer fawr o swyddi achlysurol oedd yn angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaeth hyblyg a bod y rheiny'n cael cynnig oriau penodol lle y bo modd, er bod yn well gan rai staff weithio isafswm oriau.

Wrth ymateb i gwestiwn ar y gorwario yn y Cyfrif Tai heb fod yn cynnwys yr HRA, dywedwyd wrth y Pwyllgor ei fod yn ymwneud yn bennaf â gorwariant o £125k ar Wasanaethau Cefnogi Pobl, ac yn y gorffennol y defnyddiwyd cyfran o'r Gronfa Ddatblygu i dalu costau cyflogau yn y gwasanaeth hwnnw. Fodd bynnag, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i newid y meini prawf ar ariannu a hawlio peth o'r cyllid yn ôl, nid oedd defnyddio'r gronfa i dalu costau cyflogau yn cael ei ganiatáu mwyach. O'r herwydd, roedd rhaid dod o hyd i'r arian o rannau eraill o gyllideb yr Is-adran a byddai adlunio'r gwasanaeth yn golygu y gellid cynnwys y costau hynny yng nghyllidebau'r dyfodol.

Wrth ymateb i'r uchod, cyfeiriwyd at y ffaith fod y cynllun Cefnogi Pobl yn cael ei redeg gan fwrdd a gofynnwyd a fyddai modd i'r Pwyllgor dderbyn adroddiad ar y gwasanaethau a gynigia a'i gynlluniau i'r dyfodol. Dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd, er bod y cynllun yn dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y byddai'n holi am y posibilrwydd o ddarparu'r adroddiad y gofynnodd y Pwyllgor amdano.

Wrth ymateb i gwestiwn ar adlunio'r gwasanaethau a ddarperir, dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod sawl trywydd yn cael ei ystyried yn hynny o beth, gan gynnwys lleihau nifer y contractau a ddosberthir gan y Cyngor, lleihau nifer y swyddogion comisiynu, cydweithio â Chyngor Sir Penfro ar gomisiynu rhanbarthol a lleihau nifer y staff swyddfeydd cefn er mwyn rhyddhau mwy o adnoddau ar gyfer darparu gwasanaethau.

Cyfeiriwyd at ganlyniad y refferendwm diweddar ac y byddai'r Deyrnas Gyfunol yn gadael yr Undeb Ewropeaidd a gofynnwyd pa effaith bosib allai hynny gael ar gyllideb gyfalaf y Cyngor. Dywedodd y Rheolwr Dros Dro Datblygu Economaidd mai safbwynt Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yw y bydd y status quo yn parhau am y tro. Fodd bynnag, mae ansicrwydd a fydd y rhaglen gyfalaf bresennol yn cael ei hariannu tan 2018 neu 2020. O ran effaith y penderfyniad ar Ganolfan Ewropeaidd Gorllewin Cymru yn Nantyci, nodwyd y byddai ganddi rôl bwysig o hyd dros y 2-4 blynedd nesaf yn gweithredu prosiectau newydd, cydymffurfio â gofynion archwilio a chwblhau prosiectau, gwaith a allai gymryd 2 flynedd. Bydd y Rhaglen Datblygu Gwledig yn parhau tan 2020, a byddai angen staff tan 2022 i oruchwylio'r gwaith o ddod â hi i ben.

Wrth ymateb i'r tanwariant o £76k ar Hamdden a Mynediad i Gefn Gwlad, dywedodd y Pennaeth Hamdden ei fod yn ymwneud â thanwariant ar arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru ar waith cynnal a chadw cyfalaf ar y Rhwydwaith Hawliau Tramwy. Er bod y Cyngor wedi defnyddio'r holl arian grant, nid oedd wedi gwario'i gyfraniad arian cyfatebol i gyd, ac o'r herwydd caiff y tanwariant hwnnw ei gario drosodd i flwyddyn ariannol 2016/17.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** **dderbyn yr adroddiad.**

## 9. ADRODDIAD DIWEDD BLWYDDYN AR REOLI PERFFORMIAD - 1AF O EBRILL 2015 HYD AT 31AIN O FAWRTH 2016

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Rheoli Perfformiad Diwedd Blwyddyn ar gyfer y gwasanaethau o fewn ei gylch gorchwyl ar gyfer y cyfnod rhwng y 1af Ebrill, 2015 a'r 31ain Mawrth, 2016. Roedd yr adroddiad yn cynnwys trosolwg o berfformiad gan Benaethiaid Gwasanaethau, y dulliau a ddefnyddir i fesur perfformiad, Monitro'r Cynllun Gwella – Gweithredoedd a Mesuriadau Perfformiad ynghyd â gwybodaeth am ddiolchiadau a chwynion.

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad.

Wrth ymateb i gais am ddiweddariad ar y sefyllfa bresennol o ran yr adolygiad a gynhaliwyd o'r Polisi Mynediad at Dai Cymdeithasol, atgoffodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd y Pwyllgor y codwyd nifer o faterion/pryderon am y cynlluniau mewn seminar aelodau a gynhaliwyd yn ddiweddar. O'r herwydd, roedd trefniadau'n cael eu gwneud i roi cyflwyniadau ar y cynlluniau i bob un o grwpiau gwleidyddol y Cyngor. Wedi hynny, cyflwynir yr adroddiad i'r Cyngor yn yr Hydref i'w ystyried trwy'r broses wleidyddol arferol.

Wrth ymateb i gwestiwn ar Osodiadau Cymdeithasol a'r Cyngor yn rhedeg cynllun i reoli cartrefi sector preifat ar ran landlordiaid, dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod y Cyngor yn rheoli 135 o gartrefi ar hyn o bryd a'i fod yn eu defnyddio i ail-gartrefu aelwydydd digartref neu bobl oedd mewn perygl o fod yn ddigartref yn fuan iawn. Roedd Cytundebau Rheoli ar gyfer ffioedd a threfniadau cynnal a chadw'n cael eu cytuno gyda phob landlord, ac roedd y gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud gan y Cyngor neu'r landlord, gan ddibynnu ar ofynion pob landlord unigol.

Wrth ymateb i gwestiwn ar weithrediad y cynllun peilot yng Nglanymor a sefydlu tîm Tai ac Eiddo ar y cyd, dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd y cafodd 20% o'r stad ei archwilio a bod y canlyniadau cychwynnol yn addawol, ac mai'r bwriad yw cyflwyno'r cynllun i weddill Llanelli a Chaerfyrddin. Er y cafodd 20% o'r stad ei archwilio, efallai y bydd angen, oherwydd oedi a achoswyd gan newid personél ar y dechrau, cynyddu nifer y staff sy'n gwneud yr archwiliadau trwy ddefnyddio swyddogion tai a gafodd yr hyfforddiant priodol.

Cyfeiriwyd at fframwaith contractwyr y Cyngor ac at y camau oedd ar waith i fonitro ansawdd y gwaith a wneir gan isgontractwyr. Dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod y fframwaith yn pennu mai cyfrifoldeb y contractwr oedd cynnal archwiliadau rheoli ansawdd. Fodd bynnag, cynhelir adolygiad o'r fframwaith cyn bo hir i weld a oedd unrhyw feysydd y gellid eu gwella yng ngoleuni profiad a'r angen i sicrhau gwerth am arian ar fil cynnal a chadw tai blynyddol £20m y Cyngor.

Wrth ymateb i gwestiwn ar gynlluniau i lunio model darparu amgen i gynyddu nifer y tai fforddiadwy yn y Sir, dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd ei fod yn golygu sefydlu Cwmni Tai Awdurdod Lleol i edrych ar ffyrdd o godi cyfalaf ychwanegol i gefnogi Ymrwymiad Cartrefi Fforddiadwy'r Cyngor trwy ddulliau/manylebau caffael ac adeiladu gwahanol er mwyn cyflawni mwy am lai. Bydd y cwmni hwnnw'n yn eiddo'n llwyr i'r Cyngor Sir a byddai'n cynnig y cyfle a'r rhyddid, nad yw ar gael trwy'r HRA, i ddenu mwy o fewn fuddsoddi a darparu

model darparu gwasanaeth newydd ac arloesol.

Yn deillio o'r uchod, cyfeiriwyd at gynlluniau Llywodraeth y D.U. i ymestyn yr hawl i brynu tai cymdeithasol preifat a gofynnwyd am eglurhad ynghylch unrhyw effaith bosib allai'r cynigion eu cael ar gynlluniau i sefydlu Cwmni Tai Awdurdod Lleol. Atgoffodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wrthi'n cyflwyno deddfwriaeth i ddiddymu'r darpariaethau Hawl i Brynu yng Nghymru. Roedd y Cyngor hefyd wedi atal y darpariaethau hynny yn Sir Gaerfyrddin a bydd hynny'n parhau am y tair blynedd a hanner nesaf, ac erbyn hynny bydd y Ddeddf newydd ar y Llyfrau Statud. Bydd angen hefyd i'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y cwmni newydd sicrhau y cedwir y stoc tai.

Cyfeiriwyd at y defnydd o arian Adran 106 i dalu am ddarparu tai fforddiadwy yn y Sir a dywedwyd wrth y Pwyllgor y sefydlwyd Grŵp Llywio i edrych ar sut fyddai'r gronfa bresennol o £400k yn cael ei rhannu. Dywedodd y Pennaeth Cynllunio mai un o'r materion sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd yw sut i ddefnyddio symiau bychain o arian A106 oedd yn annigonol i gyfrannu at ddarparu cartref fforddiadwy yn ardal y ward yr oedd yr arian yn deillio ohoni. Mewn sefyllfaoedd felly, gallai olygu fod yr arian a dderbyniwyd o sawl datblygiad mewn nifer o wardiau yn cael ei gronni i ddarparu cartref fforddiadwy. Roedd y Grŵp wedi cytuno hefyd i ddarparu adroddiad chwe misol ar gyfer aelodau yn manylu ar lefel yr arian A106 ac ymhle y byddai'n cael ei wario.

Wrth ymateb i gwestiwn ynghylch darparu cyfleusterau arlwyo ym Mharc Gwledig Penbre, amlinellodd y Pennaeth Hamdden y trefniadau a wnaed ar gyfer y flwyddyn bresennol. Roeddent yn cynnwys darparu byrbrydau poeth a choffi yn y ganolfan sgïo, gwelliannau i gegin y ganolfan sgïo, cerbydau arlwyo symudol yn darparu hufen iâ/byrgyrs poeth ac ati. O ran y ddarpariaeth i'r dyfodol, bydd adroddiad yn cael ei drafod gan y Bwrdd Gweithredol ar uwchgynllun ar gyfer datblygu'r Parc i'r dyfodol. Byddai hynny'n cynnwys codi blociau cawodydd a thai bach newydd yn y parc carafannau, caffi a chanolfan ymwelwyr newydd a gwella'r trefniadau yn y fynedfa.

Wrth ymateb i gwestiwn ar ffïoedd cynllunio, dywedodd y Pennaeth Cynllunio fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno deddfwriaeth yn mynnu fod awdurdodau cynllunio lleol yn codi tâl am gyngor cyn cyflwyno cais ar gyfer datblygiadau sylweddol. Ar gyfer datblygiadau llai, gallai awdurdodau cynllunio gynnig cyngor anffurfiol yn ddi-dâl, ond byddai'n rhaid codi tâl am gynnig cyngor cynllunio ffurfiol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 10. DURATION OF MEETING

Am 1.00 p.m. wrth ystyried Cofnod 9 uchod, tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol Gweithdrefn Gorfforaethol 9.1 "Hyd Cyfarfod" a CPR 23.1 "Ataliad". Gan y bu'r cyfarfod ar waith am dair awr,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL atal Rheolau Gweithdrefn y Cyngor er mwyn gallu ystyried y materion sy'n weddill ar yr agenda.**

## 11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2015/16

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol ar ei waith yn ystod blwyddyn y Cyngor 2015/16, gan nodi y cafodd ei baratoi yn unol ag Erthygl 6.2 Cyfansoddiad y Cyngor Sir.

Roedd yr adroddiad yn cynnig trosolwg o'r rhaglen waith a'r prif faterion a drafodwyd gan y Pwyllgor. Roedd yn manylu hefyd ar y materion a gyfeiriwyd at neu gan y Bwrdd Gweithredol, adolygiadau Gorchwyl a Gorffen, sesiynau datblygu a gynhaliwyd ar gyfer aelodau ynghyd â'u presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 12. DIWEDDARAF AM WEITHREDIADAU AC ATGYFEIRIADAU'R PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran camau gweithredu, ceisiadau neu atgyfeiriadau yn deillio o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**